Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Mesurau a Biliau XML

26 Ionawr 2018

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 17 Ionawr, pan wnaethoch ofyn:

> *Dymunwn wneud cais i dderbyn copi ar ffurf XML o bob Mesur a Bil Cyhoeddus:*
> - *fel y'u cyflwynwyd;*
> - *fel y'u diwigiwyd ar ôl Cyfnod 2;*
> - *fel y'u diwigiwyd ar ôl Cyfnod 3; a*
> - *fel y'u pasiwyd.*

Sefydlwyd API Data Deddfwriaethol y Cynulliad (http://legislation-data.assembly.wales) ym mis Tachwedd 2017, er mwyn darparu mynediad i ddeddfwriaeth mewn ffurf ddata sy'n agored ac yn hygyrch. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys fersiynau XML o:

- pob Deddf y Pedwerydd Cynulliad;
- pob Deddf y Pumed Cynulliad;
- rhai Biliau'r Pumed Cynulliad fel y'u cyflwynwyd; a
- phob rhestr o welliannau wedi'u didoli ar gyfnodau 2 a 3 a gyflwynwyd ym Miliau'r Pumed Cynulliad.

Yn anffodus, nid yw'r holl ddeddfwriaeth cyn y Pedwerydd Cynulliad (hy Mesurau) a'u rhestrau cysylltiedig o welliannau yng Nghyfnod 2 a Chyfnod 3 ar gael ar hyn o bryd ar ffurf XML. Yn yr un modd, nid yw rhestrau o welliannau wedi'u didoli a gyflwynwyd ar Filiau'r Pedwerydd Cynulliad, neu'r fersiynau fel y'u cyflwynwyd o Filiau'r Pedwerydd Cynulliad, ar gael.

Efallai y bydd allbynnau data agored pellach ar gael yn y dyfodol wrth i'r cyfleuster data agored ddatblygu, er y gellid targedu allbynnau o'r fath at ddeddfwriaeth gyfredol - yn hytrach na hanesyddol.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Ystyriwyd eich cais yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliad.cymru/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF